# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 3

ASESU ANGHENION UNIGOLION

*Asesu oedolion*

### 19 Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth

(1) Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod asesu—

(a) a oes ar yr oedolyn anghenion am ofal a chymorth, a

(b) os oes, beth yw'r anghenion hynny.

(2) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys o ran—

(a) oedolyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod, a

(b) unrhyw oedolyn arall sydd o fewn ardal yr awdurdod.

(3) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys ni waeth beth yw barn yr awdurdod lleol ar—

(a) lefel anghenion yr oedolyn am ofal a chymorth, neu

(b) lefel adnoddau ariannol yr oedolyn.

(4) Wrth wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) ceisio canfod y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu sicrhau mewn bywyd o ddydd i ddydd,

(b) asesu a allai darparu—

(i) gofal a chymorth,

(ii) gwasanaethau ataliol, neu

(iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 19 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir gan yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, ac

(c) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau.

(5) Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, gynnwys—

(a) yr oedolyn, a

(b) pan fo'n ddichonadwy, unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn.

(6) Natur yr asesiad o anghenion sy'n ofynnol gan yr adran hon yw un y mae'r awdurdod lleol yn barnu ei fod yn gymesur o dan yr amgylchiadau, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad mewn rheoliadau o dan adran 30.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 19 cyfyngedig (dd.) (1.4.2020) gan Coronavirus Act 2020 (c. 7), a. 87(2), **Atod. 12 para. 20** (ynghyd ag aau. 88-90, Atod. 12 parau. 23, 24, 34); O.S. 2020/366, **rhl. 3** (ddarpariaethau sy'n effeithio'n gynharach wedi'i atal (22.3.2021) gan (O.S. 2021/316), rhlau. 1(2), 2(a) ac yn dod i ben (1.8.2021) yn rhinwedd Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/850), rhlau. 1(2), **2(a)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 19 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 19 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.